## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd) |
| | **Yr Awdurdod Addysg** |
| | Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Robert Llewelyn Jones |
| | **Yr Enwadau Crefyddol** |
| | Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br>Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) |
| | **Cynrychiolwyr Athrawon** |
| | Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alun Mummery<br>Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)<br>Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones)<br>Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig)<br>Mr. D Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd) (Clerc i'r CYSAG) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her GwE) |

---

### 1 CROESO A DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 CYFLWYNIAD GAN YSGOL LLANFAWR

Oherwydd absenoldeb anorfod cynrychiolydd o Ysgol Llanfawr, Caergybi, fe ohiriwyd yr eitem.

### 3 COFNODION CYFARFOD 11 HYDREF, 2016

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4 MATERION YN CODI

Dywedodd y Cadeirydd fod Mr Rheinallt Thomas wedi derbyn y rôl cynrychiolydd y Cyngor Ysgolion Sul ar y CYSAG.

**Penderfynodd y CYSAG ffurfioli penodiad Mr Thomas fel aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor.**

O ran addoli ar y cyd mewn ysgolion, dywedodd y Cynghorydd Gwilym O Jones nad oedd wedi ymweld eto ag Ysgol Pencarnisiog i arsylwi'r addoli ar y cyd, ac y byddai'n cysylltu â Phennaeth yr ysgol maes o law i drefnu ymweliad.

Nodwyd y cafwyd ymateb cadarnhaol yn dilyn cais i 27 o ysgolion gyflwyno eu hadroddiadau hunanarfarnu Addysg Grefyddol, oherwydd bod rhagor o adroddiadau wedi dod i law.

## 5 ADRODDIAD ESTYN - HYDREF 2016

Cyflwynwyd i'r CYSAG wybodaeth o adroddiadau arolygu Estyn a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Bodedern ac Ysgol Llanfawr ym mis Hydref, 2016.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE mai prin iawn yw'r achosion lle mae Estyn yn rhoi enghreifftiau o sylwedd y gwaith addysg grefyddol a wneir mewn ysgolion. Fodd bynnag, nodwyd bod adroddiad Estyn ar Ysgol Llanfawr yn cyfeirio at enghreifftiau penodol o'r gwaith a wnaed yn y dosbarth h.y. disgyblion yn astudio Diwali; disgyblion hŷn yn ystyried a yw cymdeithas angen arweinwyr ai peidio.

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

## 6 HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad gan Ysgol David Hughes ar addoli ar y cyd. Cyflwynwyd adroddiadau hunanarfarnu gan Ysgol Llanfawr, Ysgol Gymuned Rhosybol, Ysgol Cylch y Garn ac Ysgol Caergeiliog i'w hystyried gan y CYSAG.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Her GwE at addoli ar y cyd yn Ysgol David Hughes, sy'n dilyn traddodiad Cristnogol, ond sydd hefyd yn agored i gynnwys crefyddau eraill. Perchir hawliau rhieni os ydynt yn dymuno eithrio eu plant o sesiynau addoli ar y cyd yn yr ysgol.

Nodwyd nad oes unrhyw ddisgyblion wedi tynnu allan o'r addoli hyd yn hyn, ac mae pob dysgwr yn teimlo'n gyfforddus yn mynychu'r gwasanaeth er gwaethaf yr amrywiaeth crefyddol yn yr ysgol. Teimlir bod yr agwedd gynhwysol hon yn gryfder yn yr ysgol ac y dylid ei llongyfarch.

Nodwyd y pwyntiau canlynol:-

- Nododd tair allan o bedair ysgol fod safonau, darpariaeth ac addoli ar y cyd yn dda, tra bod un ysgol wedi dweud bod ei chanlyniadau'n ddigonol.
- Mae'r ieithwedd wedi gwella mewn perthynas â sgiliau disgyblion.

• Mae’r canllawiau a gylchredwyd i’r ysgolion yn awgrymu bod ysgolion yn darparu gwybodaeth am natur a sylwedd y gwersi AG.
• Mae rhai ysgolion yn defnyddio meddalwedd asesu INCERTS i fonitro cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yn y maes addysg grefyddol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon bod rhai o’r ysgolion sy'n defnyddio’r feddalwedd hon yn defnyddio’r lefelau disgrifio anghywir fel opsiynau.
• Croesawyd gwahodd aelodau o’r gymuned / Capeli / Eglwysi i gymryd rhan mewn sesiynau addoli ar y cyd yn yr ysgolion.
• Cafwyd canlyniadau cadarnhaol yn Ysgol Rhosybol. Mae’r ysgol wedi gweithredu ar argymhellion Estyn a gwella’r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen.
• Amlygwyd llwyddiant y cydweithio rhwng athrawon Ysgol Cylch y Garn ac Ysgol Rhyd y Llan wrth baratoi ar gyfer yr ysgol newydd.
• Nodwyd fod hunanarfarniad Ysgol Caergeiliog o safonau mewn addysg grefyddol yn rhoi pwyslais arbennig ar 'lais y plentyn'.

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg Gynradd i atgoffa ysgolion i ddefnyddio'r opsiynau cywir wrth ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol INCERTS.**

**Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.**

**7 Y DIWEDDARAF GAN YR YMGYNGHORYDD HER GWE**

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Her GwE ddiweddariad ar y canlynol: -

**Safonau mewn Addysg Grefyddol**

Cyfeiriwyd at ganlyniadau arholiadau TGAU, Lefel Uwch a Lefel Uwch Gyfrannol mewn Astudiaethau Crefyddol yn y sector uwchradd yn Ynys Môn yn Haf, 2016, fel a ganlyn: -

**TGAU**

• 128 o ymgeiswyr o 5 ysgol ym Môn;
• Dyfarnwyd gradd A * / A i 45.3% o ymgeiswyr am yr ail flwyddyn yn olynol;
• Enillodd 84.3% o ymgeiswyr gymhwyster Lefel 2 (A *-C), sef cynnydd o +2.3% ers 2015;
• Methodd 2 ymgeisydd ag ennill cymhwyster Lefel 1 (1.6%);
• Mae merched yn fwy tebygol o ddewis addysg grefyddol fel pwnc na bechgyn (B: 34: G: 94);
• Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefelau uwch yn fychan iawn A * / A (1.6%), L2 (1.7%). Nid yw perfformiad bechgyn mewn Astudiaethau Crefyddol cystal â pherfformiad merched yn L1 (-5.9%) am y tro cyntaf mewn 6 blynedd;
• Dim ond 4 disgybl a safodd yr arholiad cwrs byr TGAU yn Ynys Môn.

‘Roedd Ynys Môn wedi perfformio'n dda mewn arholiadau TGAU o gymharu â'r 6 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru.

**Canlyniadau Safon Uwch**

- 54 o ymgeiswyr o 4 ysgol yn Ynys Môn;
- Dyfarnwyd gradd A * / A i 13.0% o ymgeiswyr
- Enillodd 74.1% o ymgeiswyr radd A-C.

'Roedd canlyniadau a pherfformiad Safon Uwch yn Ynys Môn yn debyg i weddill Gogledd Cymru.

**Canlyniadau Safon Uwch Gyfrannol**

- 11 o ymgeiswyr o 5 ysgol yn Ynys Môn;
- Dyfarnwyd gradd A * / A i 9.1% o ymgeiswyr
- Enillodd 36.4% o ymgeiswyr gymhwyster A-C.

Y ganran o ddisgyblion a enillodd raddau A-E yng Ngogledd Cymru oedd 78.9%, sy'n codi cwestiwn ynghylch a yw disgyblion yn derbyn yr arweiniad cywir cyn dychwelyd i'r ysgol i gymryd y cwrs Uwch Gyfrannol, neu ynghylch eu haddasrwydd ar gyfer y cwrs.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod Cynnal yn datblygu e-gylchgrawn Addysg Grefyddol ar hyn o bryd ar gyfer plant yng Nghyfnod Allweddol 3 trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r erthyglau'n cael eu paratoi bob tymor gan dri awdur o gefndir AG. Mae Miss Bethan James a Mrs Mary Parry, Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yng Nghaerfyrddin, yn ymgynghorwyr allanol. Thema'r rhifyn cyntaf, a lansiwyd yn yr hydref 2016, oedd 'Rhoi Organau', a thema'r ail rifyn yn y gwanwyn fydd 'Ffoaduriaid'.

**Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm Gydol Oes**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE fod y Panel Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (Cymru) (PYCAG) yn gweithio ar ddiffinio 'beth yw Addysg Grefyddol dda?' Lluniwyd cyfres o ddatganiadau fel rhan o'r ddogfen waith ddrafft i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion yr Athro Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus'. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyfredol yn dod i ben, a bydd yn cael effaith ar y Maes Llafur Cytûn yn Ynys Môn. Adolygir y Maes Llafur bob pum mlynedd, ond ar hyn o bryd, mae'r adolygiad wedi cael ei ohirio hyd nes y ceir gwybodaeth bellach am y 'Cwricwlwm ar gyfer Cymru' newydd. Mae'r PYGAC wedi ceisio llunio cyfres o ddatganiadau a fydd yn glir ac yn hawdd i'w deall i bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes Addysg Grefyddol.

Nodwyd bod y datganiadau PYGAC yn ddogfennau gweithio sy'n esblygu ac y gellir eu newid.

Holodd yr Ymgynghorydd Her GwE sut y gall addysg grefyddol gyfrannu at y pedwar diben canlynol o fewn gweithgareddau a gynlluniwyd yn dda ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd, sy'n ceisio datblygu:

- Dysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau;

• Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
• Dinasyddion gwybodus, moesegol sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd;
• Unigolion hyderus, iach sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Nodwyd y dylai pob ysgol weithio gyda'i gilydd tuag at yr un nod.

**Astudiaethau Crefyddol a TGAU / Lefel Uwch**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE mai Mrs Mefys Edwards yw’r Ymarferydd Rhanbarthol Arweiniol ar gyfer Adrannau AG yng Ngogledd Cymru, ac y bydd yn gweithio gydag athrawon AG eraill yn y sector uwchradd ar draws y rhanbarth i greu adnoddau i gynorthwyo gyda gweithredu’r fanyleb newydd ar gyfer TGAU Addysg Grefyddol. Bydd CBAC yn darparu hyfforddiant i athrawon ar y fanyleb. Mae Mrs Edwards a'i thîm wedi trefnu i gyfarfod ar 29 Mawrth i weithio gyda'i gilydd.

**Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn**

Gohiriwyd yr eitem hon i gael copi o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Gweithredu:**

**Cynnwys Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

**Cytunwyd i nodi'r diweddariad gan yr Ymgynghorydd Her GwE.**

**8 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR**

Gohiriwyd yr eitem uchod tan gyfarfod nesaf y CYSAG.

**Nododd y CYSAG Gyfansoddiad y Pwyllgor er gwybodaeth.**

**Gweithredu:**

**Y Swyddog Addysg Gynradd i gadarnhau a fydd Cyfansoddiad y CYSAG yn cael ei gynnwys ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

**9 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Her GwE at gofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ar 18 Tachwedd 2016. Nodwyd y prif bwyntiau canlynol: -

• Rhoddodd Pennaeth Ysgol Gymraeg Bro Myrddin gyflwyniad ar addoli ar y cyd yn yr ysgol uwchradd. ‘Roedd yr ysgol wedi derbyn cydnabyddiaeth gan Estyn am ansawdd ei darpariaeth addoli ar y cyd.

- Cyfeiriwyd at y feddalwedd asesu INCERTS. Mae ysgolion yn defnyddio'r disgrifyddion lefel o’r enw 'gwreiddiol' trwy gamgymeriad (fel y datblygwyd ar gyfer ysgolion Catholig beth amser yn ôl) yn hytrach na'r disgrifiadau o'r enw 'enghreifftiol'. Daw'r disgrifyddion lefel 'enghreifftiol' o'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru ac maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu haddasu gan bob un o'r 22 CYSAG yng Nghymru.

- Mynegwyd pryder bod Addysg Grefyddol statudol o fewn cwricwlwm yr ysgolion yn cael ei gwasgu. Mae rhai ysgolion yn credu’n anghywir bod uned AG o fewn Bagloriaeth Cymru yn ddigon i gwrdd â’r gofynion statudol, er nad yw hynny'n wir.

- Rhoddwyd cyflwyniad ar sut mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd wrth gyflwyno'r fanyleb newydd ar gyfer AG, yn debyg i'r gwaith a wneir gan Mrs Mefys Edwards yn y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

**Nododd y Pwyllgor gofnodion drafft Cymdeithas CYSAGau Cymru.**

**10 CYFARFOD NESAF**

**Nododd y CYSAG fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer 2.00pm ar ddydd Mawrth, 13 Mehefin 2017.**

Daeth y cyfarfod I ben am 3.15 y prynhawn.

**Y Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**